CYFRES FRIFFIO SEITHFED SENEDD

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# **NODYN BRIFFIO 3:** Trawsnewid Gwasanaethau i Blant, Teuluoedd ac Oedolion

**Y cais: Mae angen i bawb fod yn ymrwymedig i gydgynhyrchu canlyniadau gwell i blant, teuluoedd ac oedolion. Dylai pob partner ymgysylltu'n llawn drwy gymorth cynnar, arfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rhaid ariannu a chydgynhyrchu'r gwaith o ddileu elw o ofal plant yn llawn.**

## Pam mae trawsnewid yn bwysig: math gwahanol o ofal cymdeithasol

Nid cyfres o wasanaethau yn unig yw gofal cymdeithasol. Mae'n ymwneud â chefnogi pobl i fyw'r bywydau y maent eisiau eu byw. Mae'r egwyddor honno, sydd wrth wraidd y fersiwn ddiwygiedig o'r Weledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a gyhoeddwyd ar y cyd gennym ni a phartneriaid eraill ym mis Mawrth 2026 ac sydd wedi'i gwreiddio yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn disgrifio beth yw pwrpas gofal cymdeithasol ar ei orau: galluogi plant, pobl ifanc, oedolion anabl, pobl hŷn a'u teuluoedd i fyw'n dda yn eu cymunedau, wedi'u cysylltu â'r bobl a'r lleoedd sy'n bwysig iddynt.

Mae ein haelodau ar draws 22 awdurdod lleol Cymru yn gwybod beth sy'n gweithio: cymorth cynnar, partneriaethau lleol cryf, a gwasanaethau wedi'u cynllunio o amgylch pobl yn hytrach na systemau. Yr her ar gyfer y tymor Senedd hwn yw symud o'r egwyddor honno i realiti cyson – i ehangu a chynnal y trawsnewidiad sydd eisoes yn digwydd mewn rhannau o Gymru, a rhoi'r adnoddau priodol iddo, a'i wneud ar gael i bawb.

## Sut olwg sydd ar drawsnewid: tystiolaeth o'r maes

Mae'r adroddiad Cyflwr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, yn dogfennu sector dan bwysau difrifol ond hefyd sector sy'n newid yn weithredol. Nid yw cynghorau'n rheoli dirywiad yn oddefol. Maent yn ailgynllunio gwasanaethau, yn aml heb y cymorth cenedlaethol sydd ei angen arnynt, ac mae'r canlyniadau'n real.

Ym maes gwasanaethau plant, mae rhaglen MyST (Fy Nhîm Cefnogol) yn darparu cymorth therapiwtig CAMHS Haen 4 i blant mewn gofal, gan alluogi ailintegreiddio teuluoedd a lleihau dibyniaeth ar leoliadau cost uchel y tu allan i'r sir. Mae un cyngor yn ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n ariannu ei hun, gan gynhyrchu tua £900,000 mewn arbedion cost lleoli gwirioneddol a £500,000 mewn osgoi costau. Mae trefniadau gofal maeth Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn cefnogi pontio llyfnach rhwng lleoliadau preswyl a theuluol. Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn cael ei ymgorffori ar draws gwasanaethau plant, gyda chymorth swyddi llywio cymunedol a gynlluniwyd i nodi ac ymgysylltu â theuluoedd wrth i anhawster ddechrau dod i'r amlwg.

Mewn gwasanaethau i oedolion, mae'r model dilyniant yn cefnogi oedolion o oedran gweithio sydd ag anableddau tuag at fwy o annibyniaeth trwy asesu sy'n seiliedig ar gryfderau a gofal sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg, gan leihau dibyniaeth hirdymor ar ddarpariaeth breswyl. Mae therapi aml-systemig a modelau byw â chymorth yn y gymuned yn galluogi pobl ag anghenion iechyd meddwl i fyw'n dda yn eu cymunedau. Mae methodoleg Vanguard yn cael ei defnyddio mewn rhai awdurdodau lleol i ailgynllunio systemau gwasanaeth cyfan o amgylch anghenion y bobl maen nhw'n eu gwasanaethu, yn hytrach na strwythurau'r sefydliadau sy'n darparu cymorth.

## Trawsnewid gwasanaethau plant: y trawsnewid nid-er-elw

Dileu elw o ofal preswyl a maethu plant, a weithredwyd drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025, yw'r newid strwythurol mwyaf arwyddocaol i wasanaethau plant mewn cenhedlaeth. Dyma'r peth iawn i'w wneud: dylai plant mewn gofal preswyl gael eu cefnogi gan ddarparwyr sydd â lles y plant yn ganolog i'w diben, yn hytrach na sicrhau elw. Mae ADSS Cymru ac awdurdodau lleol wedi ymrwymo i wneud hyn weithio, ac mae cyflymder y ddarpariaeth wedi bod yn real – mae dros 200 o welyau wedi'u datblygu neu'n cael eu datblygu ledled Cymru.

Ond mae'r newid yn wynebu risgiau gwirioneddol y mae'n rhaid eu hwynebu'n onest. Y gweithlu yw'r elfen fwyaf arwyddocaol: tra bod darparwyr er-elw yn parhau i weithredu, ni all staff profiadol drosglwyddo i ddarpariaeth awdurdod lleol ac nid-er-elw newydd eto. Mae mynediad i'r dyfarniad Lefel 3 mewn gofal plant preswyl wrth barhau i gyflenwi shifftiau yn gyfyngiad systemig. Amcangyfrifir bod costau'r gweithlu wedi codi tua saith i naw y cant ers cwblhau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn 2024, ac mae'r cyllid pontio o £75 miliwn bellach yn cefnogi cwmpas cyflawni llai nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae cost gyfartalog lleoliadau preswyl wedi codi'n sylweddol oherwydd cymhlethdod cynyddol anghenion, gydag angen i rai plant gael cymarebau staffio dwys sy'n costio hyd at £1 miliwn y plentyn yn flynyddol. Disgwylir i ddarparwyr trydydd sector a darparwyr nid-er-elw ffurfio rhan sylweddol o'r ateb hirdymor ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, a rhaid cefnogi eu datblygiad fel rhan o'r cyfnod pontio.

Mae sicrhau digonolrwydd gofal maeth yr un mor hanfodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffynnu orau mewn lleoliad teuluol – ac mae prinder lleoliadau maeth bellach yn ffactor uniongyrchol sy'n achosi i blant, a fyddai'n cael eu gwasanaethu'n well gyda theulu, fynd i ofal preswyl. Mae niferoedd gofalwyr yn gostwng neu'n aros yr un fath ar draws llawer o Gymru. Mae Maethu Cymru wedi gwneud cynnydd gwirioneddol o ran cynyddu capasiti mewnol ond mae angen ffocws strategol cenedlaethol ar y sefyllfa sy'n trin digonolrwydd preswyl a maethu fel un her. Nid yw hyn yn rheswm i oedi na gwrthdroi'r trawsnewid. Mae'n rheswm i'w ariannu'n iawn, ei gyd gynhyrchu'n ddiffuant gyda llywodraeth leol, a bod yn onest ynglŷn â'r amserlen a'r costau.

## Cymorth cynnar a chadw teuluoedd gyda'i gilydd

Mae plant yn ffynnu orau pan maen nhw'n tyfu i fyny gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau eu hunain. Rhaid i gadw teuluoedd gyda'i gilydd – neu ddychwelyd plant i'w teuluoedd lle mae'n ddiogel gwneud hynny – fod yn nod penodol a chanolog i wasanaethau plant yng Nghymru. Mae'r Weledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn glir: "rhaid i ni symud at ymyriadau a dulliau cynharach i gefnogi teuluoedd ar gamau cynharach, gan atal materion rhag dwysáu a'r angen am ymatebion i argyfyngau."

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi hyn yn bendant. Mae cymorth teuluol cynnar, sydd ag adnoddau da, yn cynhyrchu canlyniadau gwell i blant, profiadau gwell i deuluoedd, a llawer llai o bwysau ar wasanaethau statudol dros amser. Mae bron yn sicr mai dyma'r buddsoddiad mwyaf costeffeithiol y gall Cymru ei wneud mewn gwasanaethau plant – ac eto dyma'r peth cyntaf i gael ei dorri'n gyson pan fydd cyllidebau dan bwysau, oherwydd nid yw'n statudol yn yr un modd â gwasanaethau amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal.

Mae oedi wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) yn un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol a chyson sy'n ysgogi'r galw mewn gwasanaethau plant, wrth i anghenion iechyd meddwl heb eu diwallu waethygu, gan arwain at argyfyngau gofal cymdeithasol statudol. Mae hwn yn fethiant systemig ar y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gofyn am ateb ar y cyd. Nid yw mynd i'r afael â chapasiti a mynediad at CAMHS yn fater iechyd nac yn fater gofal cymdeithasol: mae'n gyfrifoldeb a rennir sydd angen cynllun a rennir a buddsoddiad a rennir. Mae galwad y Weledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i "bob gwasanaeth cyhoeddus gymryd perchnogaeth o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol" yr union fframwaith ar gyfer hyn.

## Trawsnewid gwasanaethau oedolion: o ddull adweithiol i ddull sy'n seiliedig ar gryfderau

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn ysgwyddo cymhlethdod cynyddol tra bo'r sylfaen ariannol yn crebachu. Mae gofal yn y cartref, gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl yn cael eu nodi'n gyson fel y rhai sy'n profi'r cynnydd mwyaf mewn galw a gorwariant. Adroddodd un cyngor am bwysau ariannol o £2.7 miliwn mewn gofal cartref yn unig. Cynyddodd nifer yr oedolion sy'n derbyn gofal preswyl neu ofal yn y cartref 6.6 y cant rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mehefin 2024.

Mae'r sector anabledd dysgu yn wynebu argyfwng penodol. Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi rhybuddio am don o sefydliadau trydydd sector a darparwyr cymorth yn cau, yn deillio o dan-ariannu a chostau cynyddol yn sgil gofynion Yswiriant Gwladol a'r cyflog byw gwirioneddol. Mae darparwyr mawr nid-er-elw yn rhybuddio am gwymp sydd ar fin digwydd, a allai olygu fod pobl ag anableddau dysgu yn wynebu tarfu sylweddol a lleoliadau anaddas a bod mwy o unigolion yn cael eu gwthio tuag at wasanaethau statudol costus. Rhaid cydnabod yr argyfwng hwn am yr hyn ydyw – a darparu'r buddsoddiad a'r mesurau i sicrhau sefydlogrwydd y farchnad sydd eu hangen i fynd i'r afael ag ef.

Mae gofal iechyd parhaus y GIG yn parhau i fod yr her weithredol fwyaf arwyddocaol ar draws gwasanaethau oedolion yng Nghymru. Mae cynghorau'n adrodd yn gyson bod cyrff y GIG yn tan-gymhwyso gofal iechyd parhaus yn systematig, gan symud costau iechyd i ofal cymdeithasol heb gyllid na mandad cyfatebol. Nododd un cyngor ddiffyg blynyddol o £600,000 mewn gofal nyrsio a ariennir yn unig. Nid achos ynysig yw hwn – mae'n wendid strwythurol ar y ffin rhwng iechyd a gofal cymdeithasol y mae'n rhaid ei ddatrys. Mae awdurdodau lleol yn darparu gofal yn rheolaidd i bobl y mae eu hanghenion sylfaenol yn gyfrifoldeb iechyd ac nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy yn gyfreithiol nac yn ariannol.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r dystiolaeth o drawsnewid yn drawiadol. Mae'r newid o asesu a chynllunio gofal sy'n seiliedig ar ddiffygion i asesu a chynllunio gofal sy'n seiliedig ar gryfderau – gan ganolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn hytrach na'r hyn y gall gwasanaethau ei ddarparu – yn newid canlyniadau i bobl. Mae'r model dilyniant, ailgynllunio byw â chymorth a buddsoddiad mewn ailalluogi yn dangos, pan fydd pobl yn cael eu cefnogi i feithrin eu cryfderau a'u cysylltiadau eu hunain, bod y galw am wasanaethau statudol yn lleihau dros amser. Dyma'r sgwrs "yr hyn sy'n bwysig" sy'n ganolog i bob asesiad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – a dyma lle mae'r achos buddsoddi dros drawsnewid yn fwyaf cymhellol.

## Cydgynhyrchu: y sylfaen, nid ôl-ystyriaeth

Mae'r Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn galw am "system o ofal a chymorth sydd wedi'i chynhyrchu ar y cyd ac yn gydlynol, sy'n hygyrch ac sy'n seiliedig ar asedau a mesurau atal". Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi lle canolog i ddinasyddion: llais a rheolaeth, dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn rhannu pŵer ac yn cydweithio fel partneriaid

cyfartal. Nid datganiadau dyheadol yw'r rhain. Dyma sylfeini deddfwriaethol a strategol y system gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Nid ymarfer ymgynghori yn unig, nac elfen ddewisol, yw cydgynhyrchu. Mae'n ffordd hollol wahanol o ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau – un sy'n dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, nid yr hyn sydd ar goll; sy'n adeiladu ar gryfderau cymunedol yn hytrach na systemau proffesiynol; ac sy'n cynhyrchu canlyniadau gwell oherwydd ei bod yn trin profiad pobl sy'n defnyddio gofal fel y prif ffynhonnell wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio.

Ond mae cydgynhyrchu gwirioneddol yn gofyn am amser, adnoddau ac ymrwymiad diwylliannol sy'n anodd iawn eu cynnal pan fydd gwasanaethau o dan bwysau goroesi. Mae'r Weledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn onest ynglŷn â hyn: heb fynd i'r afael yn llawn â'r heriau deuol o gyllid cynaliadwy a gweithlu gwerthfawr, "y cyfan y gallwn ei wneud yw symud y darnau o amgylch bwrdd". Y peth pwysicaf y gall y Senedd newydd ei wneud i hyrwyddo cydgynhyrchu ledled Cymru yw darparu'r cyllid sefydlog, aml-flwyddyn sy'n caniatáu i ofal cymdeithasol symud o ymateb i argyfyngau i gynllunio ar gyfer y dyfodol – o reoli argyfyngau i adeiladu bywydau.

## Gweithio gyda'r Senedd newydd

Mae'r Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y newid i nid-er-elw, a'r gwaith trawsnewid sy'n cael ei adeiladu gan gynghorau ledled Cymru i gyd yn arwain at yr un casgliad: system gofal cymdeithasol sy'n ataliol yn hytrach nag yn adweithiol, yn seiliedig ar gryfderau yn hytrach nag yn cael ei ysgogi gan ddiffygion, ac sydd wedi'i chydgynhyrchu gyda'r bobl y mae'n eu cefnogi ac wedi'i gwreiddio yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Dyma uchelgais ADSS Cymru, a rennir gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Gofal Cymdeithasol Cymru, a'n partneriaid yn y GIG a'r trydydd sector.

Mae ADSS Cymru am sefydlu perthynas waith weithredol â Llywodraeth Cymru a chydag Aelodau'r Senedd ar draws pob grŵp gwleidyddol drwy gydol y tymor hwn – ar y trawsnewidiad nid-er-elw, y mae'n rhaid ei ariannu'n llawn a'i gyd gynhyrchu'n wirioneddol â llywodraeth leol; ar gymorth cynnar a chymorth i deuluoedd, y mae'n rhaid eu hamddiffyn rhag colli cyllid grant yn sydyn; ar anableddau dysgu ac iechyd meddwl, lle mae'r farchnad darparwyr mewn argyfwng; ar ofal iechyd parhaus, lle mae'r ffin rhwng costau iechyd a gofal cymdeithasol yn anghynaladwy; ac ar yr arfer sy'n seiliedig ar gryfderau, wedi'i gyd gynhyrchu sy'n sylfaen i bopeth arall. Mae cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaethau cymdeithasol ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn adnabod eu cymunedau, yn gwybod beth sy'n gweithio, ac yn gwybod beth yw'r rhwystrau. Maen nhw'n barod i adeiladu'r system gofal cymdeithasol y mae Cymru'n ei haeddu – gyda'r bartneriaeth, yr adnoddau a'r ewyllys wleidyddol gywir y tu ôl iddyn nhw.

## Ffynonellau allweddol

Cyflwr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Heriau, Pwysau a Thuag at Gynaliadwyedd. CLlLC a Chymdeithas Trysoryddion Cymru, Hydref 2025.

Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. CLlLC, ADSS Cymru a SOLACE Cymru, Mawrth 2026.

Datblygu Digonolrwydd mewn Gofal Preswyl i Blant: Sefyllfa Mai 2026. ADSS Cymru, Mai 2026.

Ymchwil y Senedd, Diwygio gofal cymdeithasol i oedolion: a yw Cymru'n barod i wynebu'r pwysau cynyddol ar y system gofal? Mai 2026.

Darlun damniol: argyfwng i'r gymuned anabledd dysgu yng Nghymru.Anabledd Dysgu Cymru, 2025.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cymru Iachach. Llywodraeth Cymru, 2018.

ADSS Cymru yw Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y corff arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

**Am ragor o wybodaeth:**
ADSS Cymru, Uned Fusnes, Tŷ Antur, Parc Navigation, Abercynon, CF45 4SN